


# Addewid gan Gomisiynydd Plant Cymru i Bobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal




Rocio yw fy enw i, a fi yw Comisiynydd Plant Cymru.




Fy ngwaith i yw eich helpu chi i gael eich hawliau.



Hawliau plant yw'r pethau sydd eu hangen arnoch chi i dyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.




Rydw i'n gwneud addewid i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.




Rydw i eisiau i sefydliadau eraill wneud addewid hefyd.



Rydw i'n addo cwrdd â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a gwranddo ar beth rydych chi'n meddwl sy'n bwysig.




Rydw i'n addo codi llais os byddwch chi'n cael eich trin yn annheg.



Rydw i'n addo ysgrifennu gwybodaeth sy'n hawdd ei deall.



Rydw i'n addo gwneud yn siŵr bod fy nhîm yn dysgu mwy am eich profiadau.



Rydw i'n addo cynnig profiad gwaith i bobl ifanc.



Rydw i'n addo y cewch chi ddefnyddio fy Ngwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor os byddwch chi'n teimlo eich bod chi ddim yn cael eich hawliau.